Pwyllgor Cynllunio: 08/01/2025 **12.1**

Rhif y Cais: FPL/2024/209

Ymgeisydd: Mr Bob William-Parry

Bwriad: Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw'r gwaith adfer i'r Afon Braint ac Afon Eryr Uchaf ar dir ger

Lleoliad: Canolfan Rheoli Gwastraff y Cartref Penhesgyn, Penmynydd.



Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Colette Redfern)

Argymhelliad: Caniatáu

Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor

Cais gan Gyngor Sir Ynys Môn yw hwn.

Y Cynnig a'r Safle

Cynnig yw hwn i gadw gwaith adfer ar Afon Braint fydd yn arwain at drefniadau hydrolegol mwy naturiol ac amrywiol er mwyn gwella cynefin ar gyfer rhywogaethau dyfrol a gwella trefniadau rheoli llifogydd ac ansawdd dŵr.

Mae'r safle wedi'i leoli i'r gogledd-orllewin o Ganolfan Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref Penhesgyn mewn lleoliad yng nghefn gwlad rhwng Penmynydd a Phorthaethwy.

Mater(ion) Allweddol

Y prif faterion yn gysylltiedig â'r cais yw:
i. Effaith ar yr amgylchedd

Polisïau

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Polisi PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
Polisi PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu
Polisi AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a Lle bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, Chwefror 2024)

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)

Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Ymgynhorai	**Ymateb**
Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol / Ecological and Environmental Advisor	Sylwadau
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales	Gofynnwyd am wybodaeth bellach a chadarnhawyd fod y wybodaeth ychwanegol yn dderbyniol
Ymgynghorydd Tirwedd / Landscape Advisor	Dim ymateb
Cynghorydd Sonia Williams	Dim ymateb
Cynghorydd Robin Wyn Williams	Dim ymateb
Cynghorydd Dyfed Wyn Jones	Dim ymateb
Cyngor Cymuned Penmynydd a Star Community Council	Dim ymateb
Draenio / Drainage	Sylwadau safonol
Dwr Cymru Welsh Water	Dim sylwadau
Iechyd yr Amgylchedd / Environmental Health	Sylwadau safonol
Mr Robin Williams	Dim ymateb
Adain Eiddo / Property Section	Dim ymateb

Hysbysebwyd y cais cynllunio trwy anfon llythyrau at unedau cyfagos a gosod hysbysiad ger y safle. Hysbysebwyd y cais hefyd yn y papur newydd lleol. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau oedd 27 Medi 2024. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, nid oedd yr adran wedi derbyn yr un llythyr yn cyflwyno sylwadau.

Hanes Cynllunio Perthnasol

Dim hanes perthnasol yn gysylltiedig â'r safle.

Prif Ystyriaethau Cynllunio

i. **Effaith ar yr Amgylchedd** - Mae'r cynnig yn golygu gwneud gwaith ar wely a glannau prif afon ddiffiniedig ac oherwydd hynny mae effeithiau amgylcheddol y cynllun yn ystyriaeth berthnasol allweddol. Prif amcanion y cynllun yw gwella gallu'r afon i ymdopi â dŵr llifogydd a gwella ei gwerth ecolegol. Mae prif waith peirianyddol y cynllun yn ymwneud ag ail-broffilio glannau'r afon ynghyd â chreu pyllau gwlypdir bas tymhorol fydd yn cysylltu â phrif sianel yr afon yn ystod llifogydd. Mae ailbroffilio glannau'r afon yn golygu lledaenu sianel yr afon a gostwng lefel glannau'r afon. Bydd hyn yn cynyddu arwynebedd croestoriad sianel yr afon gan greu mwy o gapasiti ar gyfer dŵr llifogydd. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau'r perygl o lifogydd ymhellach i fyny'r afon o'r safle. Bydd y pyllau gwlypdir bas tymhorol hefyd yn gweithredu fel cronfa ar gyfer dŵr llifogydd, gan wella capasiti'r afon i ymdopi â dŵr llifogydd. Lleihau, addasu a lliniaru effeithiau newid hinsawdd yw un o brif themâu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y cynllun hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y thema hon.

Bioamrywiaeth ac Ecoleg – Fel y nodwyd uchod, amcan allweddol arall y cynllun yw gwella gwerth ecolegol cynefinoedd dyfrol yr afon a chynefinoedd ar lannau'r afon. Bydd nifer o nodweddion yn cael eu gosod yn sianel yr afon ei hun, gan gynnwys meini mawr, cyfarpar i wyro llif y dŵr ac argaeau bychan. Bydd y nodweddion hyn yn creu amrywiaeth o gynefinoedd, megis pyllau a rhigolau dyfnach, yn ogystal â chreu ardaloedd lle bydd llif y dŵr yn gyflymach. Bydd y llif cyflymach yn glanhau'r gwelyau graean gan adfer cynefin silio brithyll pwysig. Bydd creu'r pyllau gwlypdir bas tymhorol yn darparu ardaloedd lle bydd dŵr yn sefyll gan ddarparu cynefin pwysig ar gyfer amffibiaid ac adar. Yn ogystal â'r uchod, bydd nifer o rywogaethau coed sy'n tyfu mewn gwlypdir, megis helyg, yn cael eu plannu er mwyn cynyddu gwerth bioamrywiaeth yr ardal ymhellach.

O dan bolisi AMG5 a dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchoedd (2016), mae disgwyl i bob cynnig ddangos cynnydd net o ran bioamrywiaeth. Bydd y mesurau uchod yn darparu'r cynnydd net gofynnol ac roedd Swyddog Ecoleg y Cyngor yn eu croesawu. Y cyngor a ddiweddarwyd ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (PPC) yw y dylid defnyddio dull fesul cam o gynnal a gwella bioamrywiaeth, meithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth a darparu manteision net i fioamrywiaeth. Y flaenoriaeth gyntaf yw osgoi difrodi bioamrywiaeth yn ei ystyr ehangach a gweithrediad ecosystemau. Lle gallai datblygiad gael effaith andwyol ar yr amgylchedd bydd angen i awdurdodau cynllunio dderbyn sicrwydd bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i unrhyw safleoedd rhesymol eraill (gan gynnwys lleoliad ac opsiynau dylunio amgen) a fyddai'n osgoi neu'n lleihau effeithiau andwyol neu'n cynnig manteision.

Cyflwynwyd Datganiad Seilwaith Gwyrdd i gyd-fynd â'r cais ac mae Swyddog Ecoleg yr Awdurdod Lleol wedi'i asesu. Ystyriwyd bod y datganiad yn foddhaol ac yn gymesur â graddfa'r cais.

Canfu arolwg o'r safle fod rhywogaethau goresgynnol yn bresennol ar y safle ac mae'r asiant wedi cadarnhau y byddai'n cael ei waredu yn ddiogel yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref Penhesgyn.

Yn ystod archwiliad o'r safle, gwelwyd bod gwaith wedi dechrau ar y safle a'i fod bron â'i gwblhau. Mae'r asiant wedi cadarnhau fod y rhywogaethau goresgynnol wedi cael eu gwaredu yn ddiogel ac o dan reolaeth.

Casgliad

Ni fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar amgylchedd, bioamrywiaeth nac ecoleg yr ardal ac mae'n cydymffurfio â pholisïau presennol.

Argymhelliad

Bod y cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau canlynol:

01) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.

- **Cynllun lleoliad**
- **Cynllun safle arfaethedig**
- **Arolwg Llygod Dŵr a Dyfrgwn - Wildbanks Conservation - Gorffennaf 2024**
- **Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi Penhesgyn Afon Tirlenwi Adferiad - Ymddiredolaeth Afonydd Gogledd Cymru - Mehefin 2024**

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

(02) Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â Adran 5.1 Casgliadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Arolwg Llygod Dŵr a Dyfrgwn gan Wildbanks Conservation dyddiedig Gorffennaf 29 2024 a gyflwynwyd o dan gais cynllunio cyfeirnod FPL/2024/209.

Rheswm: Er mwyn diogelu unrhyw rywogaethau a warchodir

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.